

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif

Weinidog

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideogynhadledd drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/11204>

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Chwefror 2021

Amser: 14.02 – 16.30

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Ann Jones AS (Cadeirydd) Mick Antoniw AS Jayne Bryant AS Janet Finch-Saunders AS Russell George AS John Griffiths AS Lynne Neagle AS Nick Ramsay AS David Rees AS Bethan Sayed AS
Tystion:	Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru Des Clifford, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Sian Giddins (Dirprwy Glerc)



1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Dai Lloyd AS, Llyr Gruffydd AS a Mike Hedges AS.

Cafwyd y datganiadau o fuddiant a ganlyn gan Bethan Sayed AS a Mick Antoniw AS o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- mae gŵr Bethan Sayed wedi cael mynediad at gymorth o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, sydd ar gael i weithwyr llawrydd; ac
- mae mab Mick Antoniw wedi cael mynediad at gymorth o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, sydd ar gael i weithwyr llawrydd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, nododd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

2 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig Covid-19 a'r adferiad

Ar ran y Pwyllgor, gofynnodd y Cadeirydd i Dr Andrew Goodall ddiolch i holl staff y GIG am eu gwaith yn ystod y pandemig.

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Prif Weinidog o ran y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd mewn perthynas â'r pandemig COVID-19.

3 Materion yn ymwneud ag ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Prif Weinidog o ran y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd mewn perthynas ag ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

4 Papur(au) i'w nodi

4.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig Covid-19 a'r adferiad. Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a thrafododd y mater hwn â'r Prif Weinidog yn ystod yr ail eitem ar yr agenda heddiw.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

6 Trafod y sesiwn dystiolaeth flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiynau dystiolaeth blaenorol a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn bod dadansoddiad o'r cymorth sydd ar gael i fusnesau yng ngwledydd y Deyrnas Unedig yn cael ei gyhoeddi a'i anfon at y Pwyllgor.

Sylwadau gan y Cadeirydd i gloi

O gofio mai dyma gyfarfod olaf y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn ystod y Pumed Senedd, yn ôl yr amserlen bresennol, diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith. Hefyd, diolchodd i'r Prif Weinidog a'i swyddogion am ymgysylltu â gwaith y Pwyllgor ac i'r ysgrifenyddiaeth am gefnogi'r Pwyllgor gyda'i waith.